

Treigladau gyda geiriau gofynnol

Ffurio'r cwestiwn

Sylwch ar y treigladau sy'n dilyn y geiriau gofynnol yma.

Sut + berf		Sut taloch chi am y llyfrau?
Sut + enw	Treiglad meddal	Sut gy frifiadur yw e?
Pryd + berf		Pryd cyrhaeddod nhw?
Ble + berf		Ble gadawaist ti dy got?
Beth + berf	Treiglad meddal	Beth ddy wedodd y rhiant?
Faint + berf	Treiglad meddal	Faint d alon nhw?
Pwy + berf	Treiglad meddal	Pwy fwy todd y cinio?
Pa + enw	Treiglad meddal	Pa ly frau ysgrifennodd hi?
Pa + enw + berf	Treiglad meddal	Pa ly frau dd arlленаist ti?
P'un + berf	Treiglad meddal	P'un b rynoch chi?
Pam		Pam dest ti i'r ysgol?

Enghreifftiau

Sut + berf

Cwestiwn	Ateb
Sut rydych chi blant?	Rydyn ni'n dda iawn diolch.
Sut roedd pawb yn teimlo ddiwedd y tymor?	Roedd pawb wedi blino.
Sut cadwaist ti'r ddysgl yn wastad rhyngddynt?	Cadwais i nhw ar wahan.
Sut gallwn ni ddatrys y broblem hon?	Gallwch chi brynu teledu newydd.

Sut + enw

Cwestiwn	Ateb
Sut ddiwrnod yw hi heddiw?	Mae hi'n oer heddiw.
Sut dywydd gawsoch chi yn Sir Benfro y llynedd?	Cawson ni dywydd braf yno.
Sut gwrs oedd e?	Roedd e'n gwrs ardderchog.

Pryd + berf

Cwestiwn	Ateb
Pryd mae plant y cyfnod sylfaen yn cael cinio?	Mae plant y cyfnod sylfaen yn cael cinio am hanner dydd.
Pryd roedd y merched yn bwriadu cyrraedd?	Roedden nhw'n bwriadu cyrraedd erbyn cinio.
Pryd byddwch chi'n dod i'n gweld ni?	Byddwn ni'n dod wythnos nesa.
Pryd clywoch chi'r newyddion?	Clywais i'r newyddion neithiwr.

Ble + berf

Cwestiwn	Ateb
Ble roedd Rhodri'n byw cyn symud i Hwlfordd?	Roedd e'n byw ym Mangor.
Ble clywais ti am y swydd?	Clywais i am y swydd yn y ganolfan waith.
Ble bydd pawb yn aros dros y penwythnos?	Byddan nhw'n aros mewn gwesty gwely a brecwast.
Ble prynwch chi'r llyfrau?	Prynwn ni'r llyfrau o wefan Gwales.

Beth + berf

Cwestiwn	Ateb
Beth sy'n digwydd yn y pentref heno?	Carnifal sy yn y pentref heno.
Beth yw enw pennaeth newydd yr ysgol?	Dr Evans yw enw'r pennaeth newydd.
Beth oedd nod y wers?	Ysgrifennu'n drefnus oedd nod y wers.
Beth fydd yn digwydd yn y wers nesaf?	Byddwn yn gwneud arbrawf.
Beth ddysgoch chi yn yr hyfforddiant?	Dysgon ni am y sgiliau allweddol.

Faint + berf

Cwestiwn	Ateb
Faint fydd yn mynd i'r ysgol uwchradd eleni?	Ugain o blant fydd yn mynd eleni.
Faint dalwch chi am y gwisgoedd?	Talwn ni ugain punt yr un am y gwisgoedd.
Faint ddaeth i'r cyngerdd neithiwr?	Daeth dau gant i'r cyngerdd neithiwr.
Faint oedd yn y noson rieni?	Roedd tu hanner cant yn y noson rieni.

Pwy + berf

Cwestiwn	Ateb
Pwy sy'n chwarae gwyddbwyll dros y sir?	Dafydd sy'n chwarae dros y sir.
Pwy oedd yn cystadlu yn yr eisteddfod?	Siwan a Llio oedd yn cystadlu yn yr eisteddfod.
Pwy fydd yn cael cyfweiliad am y swydd?	Fi fydd yn cael cyfweiliad am y swydd.
Pwy gysgodd yn yr ysgol neithiwr?	Tomos y gath gysgodd yn yr ysgol neithiwr.

Pa + enw

Cwestiwn	Ateb
Pa lyfr wyt ti'n hoffi?	Rwy'n hoffi <i>Cysgod y Cryman</i> .
Pa fath o berson yw e?	Mae e'n berson caredig iawn.
Pa newyddion sy gyda ti?	Does dim newyddion gyda fi heddiw.

Pa + enw + berf

Cwestiwn	Ateb
Pa fara fwytaist ti?	Bwytais i'r bara brown.
Pa gar brynaist ti?	Prynais i'r car coch.
Pa gynllun gwaith ddefnyddiaist ti?	Defnyddiais i gynllun gwaith GCaD.

P'un + berf

Cwestiwn	Ateb
P'un sy'n iawn?	Y ferch sy'n iawn.
P'un oedd y gorau?	Y bachgen oedd y gorau.
P'un gyrhaeddodd gyntaf?	Y sgwarnog gyrhaeddodd gyntaf.
P'un gafodd y swydd?	Fi gafodd y swydd.

Pam?

Cwestiwn	Ateb
Pam daethoch chi i'r ysgol neithiwr?	Achos roeddwn i eisiau gweld y gofalwr.
Pam cerddaist ti i'r dref?	Achos collais i'r bws.
Pam gwyliaist ti'r ffilm yna?	Gwyliais i'r ffilm achos roedd hi'n rhy ddiflas i fynd allan.
Pam roedd e'n hwyr eto?	Roedd e'n hwyr eto achos cysgodd e'n hwyr.